



**Mawrth 25ain 2018**



Pleser Mike West yw i groesawu Côr Caerdydd i'n cwrdd y bore 'ma. Bydd y côr yn perfformio Myfi Yw! Oratorio o Efengyl Sant Ioan gan Derec Williams, Linda Gittins a Penri Roberts. Gwneir caglad tuag at Housing Justice Cymru. Bethan sy'n cyfeilio.

### Y Suliau nesaf.....

**Sul y Pasg** – Allan James, gyda Geraint Wyn Davies, Eleri Huws yn cyfeilio, Audrey Lewis yn croesawu.

**Ebrill 8ed** – y Parchg Aled Edwards gyda Nia Williams, Helen Prosser yn croesawu, Bethan yn cyfeilio.

**Ebrill 15eg** – Oedfa i'r Teulu, Sian yn cyfeilio.

**Ebrill 22ain** - Keith Rowlands gyda Helen Prosser, Bethan yn cyfeilio a Jane Eryl a Geraint yn croesawu.

### Dathliadau 150 y Tabernacl

I ddathlu 150 mlynedd ers codi Capel y Tabernacl gobeithiwn lwyfannu sioe yn olrhain hanes yr achos. Er bod dros ddwy flynedd yn weddill cyn cynnal y dathliadau bydd gofyn dechrau ar y paratodau cychwynnol am y sioe yn fuan.

**Dathlu'r 150:** Estynnir gwahoddiad i unrhyw un sydd â diddordeb i gynorthwyo llunio sgrïpt, cyfansoddi caneuon ynghyd â threfnu i lwyfannu'r perfformiad i gysylltu gydag un o aelodau'r Bwrdd cyn 27 Mawrth.

### Madagascar 1818-2018

Fel rhan o Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gynhelir yn Aberaeron rhwng y 6<sup>ed</sup> a'r 10<sup>fed</sup> o Fehefin bydd yr Undeb yn dathlu 200 mlwyddiant glaniad y cenhadon o Neuadd-lwyd ym Madagascar ym 1818. Ar nos Wener 8fed o Fehefin bydd sioe i ddathlu hanes y cenhadon cynnar yn cael ei pherfformio ar fferm Pen-rhiw – sef cartref David Jones, un o'r ddau genhadwr cyntaf – a bydd Oedfa Ddathlu ar y pawns Sadwrn a chyngerdd i gyflwyno doniau Cymru a Madagascar ar y nos Sadwrn. Os oes unrhyw un awydd archebu tocynnau ar gyfer y sioe, a seddau cadw ar y bws wennol o Aberaeron i'r perfformiad cysylltwch gyda Gwilym Huws ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205) am ffurflen archebu.

### Sesiwn Trafod y Grawys

Bydd y drafodaeth olaf, heddiw am 5 o'r gloch yn y capel.




### Cymanfa Hanner Awr Dros Heddwch

Estynnir gwahoddiad i bawb sydd am weld byd di -drais i ymuno ag aelodau Cymdeithas y Cymod ac eraill i ganu emynau y tu allan i'r **Motorpoint Arena fore Mawrth 27ain o Fawrth** fel rhan o'r gwrthdystiad yn erbyn y 'Ffair Arfau' sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd unwaith eto eleni. Bydd rhai yn ymgynnull y tu allan i'r Arena o 8 y bore ymlaen, ond y bwriad yw cynnal y 'Gymanfa Hanner Awr' rhwng 9.30 a 10.00 y bore.

### Bwrdd Cyfarwyddwyr y Capel

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 27 Mawrth. Os oes gennych adroddiad i'w gyflwyno neu fater yr hoffech ei godi yn y cyfarfod yna cysylltwch gyda Gwilym Huws ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) 01443 225205) erbyn nos Llun 26 Mawrth fan bellaf.

**Bore dydd Gwener y Groglith am 10.30 cynhelir gwasanaeth Undebol arferol yn Salem, Tonteg. Gobeithir gweld nifer o aelodau'r capel yno.**



Noson Gerddorol gyda'r Teulu Lovell-Jones

Ebrill 5ed 7.30 yn y Tabernacl